Cross Party Group
on Arts & Health

(Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddyau ac Iechyd)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar $2^{il}$ Chwefror 2017 yn y Pierhead

Cefndir:

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd yn cynnal cyfres o drafodaethau bord gron lle gwahoddir ymarferwyr, academyddion, gwneuthurwyr polisi, y rhai â phrofiad byw a rheolwyr gwasanaethau i rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Bwriad y wybodaeth a gesglir yw cyfrannu at argymhellion polisi a chyfrannu at arferion a datblygiadau o bwys ym maes y celfyddydau, iechyd a lles.

Croesawodd Eluned Morgan AC y gwesteion a rhoddodd drosolwg o amcanion y grŵp. Wedyn cafwyd cyflwyniadau bord gron. Cylchredwyd cofrestr, a chofnodwyd yr enwau canlynol:

*Alison Warner - Rheolwr Prosiect – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf*

*Elizabeth Aylett - Rheolwr Rhaglen y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr*

*Rosemary Graham - Hyfforddwr / Crëwr 'The Life Awakening Coach'*

*Rhiannon Pritchard - Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Jessica Robinson - Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Emily Underwood-Lee - Canolfan Adrodd Storïau George Ewart-Evans*

*Prue Thimbleby - Cydlynydd y Celfyddydau mewn Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg*

*Gareth Coles - Cyfarwyddwr Gwirfoddol Celfyddydau Cymru*

*Phil George - Cyfarwyddwr, Cyngor Celfyddydau Cymru*

*Sally Lewis - Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru*

*Angela Rogers - Engage Cymru*

*Stephanie Bolt - Academydd*

*David Jones - David Jones Associates*

*Claire Cressey - Cyfarwyddwr, Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Sarah Goodey - Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau - Gwent Arts in Health*

*Dafydd Elis-Thomas – AC Dwyfor Meirionnydd*

*Julie Morgan - AC Gogledd Caerdydd*

*Jayne Bryant - AC Casnewydd*

*Karen McArthy - Craft Of Hearts*

*Nick Ramsay - AC Sir Fynwy*

*Annie Dayton - Theatr Clwyd*

*Eluned Morgan – AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru*

*Kirsty Keenan- Swyddfa Eluned Morgan AC*

Dywedodd Eluned wrth yr aelodau yr ysgrifennwyd at Ysgrifennydd Iechyd y Cabinet yn dilyn y cyfarfod blaenorol a bod ymateb wedi dod i law. Gwahoddodd Phil George i drafod hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn y sesiwn.

Dangoswyd clip o eitem newyddion ddiweddar; dywedodd Eluned, er nad oedd y grŵp ond megis cychwyn, ei fod eisoes yn cael effaith a bod y dystiolaeth o ran yr effaith lesol a gaiff y celfyddydau ar ganlyniadau iechyd a lles, ar ffurf iechyd corfforol a meddyliol, yn dal i dyfu.

Nododd fod mwy a mwy o bobl yn cydnabod bod y celfyddydau'n gallu hybu adferiad, gwella ansawdd bywyd yn enwedig i'r rhai sydd â chyflyrau tymor hir a therfynol, cael effaith ar brofiad staff, gwneud amgylcheddau gofal iechyd yn fwy dyneiddiol a chyfrannu at arbedion cost trwy arosiadau ysbyty byrrach a defnyddio llai o feddyginiaeth.

Yna gwahoddodd Eluned yr Arglwydd Howarth i roi trosolwg o waith y Grŵp Seneddol Hollbleidiol.

Diolchodd yr Arglwydd Howarth am y gwahoddiad i siarad yn y cyfarfod a llongyfarchodd yr aelodau ar sefydlu'r grŵp. Canmolodd y gwaith da a wnaed o fewn cyfnod mor fyr.

Aeth ymlaen i gynnig cipolwg ar hanes y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ers ei sefydlu ym mis Ionawr 2014. Esboniodd fod y grŵp, ym mis Tachwedd 2015, wedi lansio ymchwiliad dwy flynedd i'r Celfyddydau, Iechyd a Lles mewn cydweithrediad â King's College, Llundain, ac mewn partneriaeth ag Elusen St Thomas a Grŵp Buddiant Arbennig y Gymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus ar y Celfyddydau, Iechyd a Lles.

Eglurodd mai pwrpas yr astudiaeth yw archwilio themâu pellach a datblygu argymhellion polisi i lywio gweledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth wleidyddol ym maes y celfyddydau, iechyd a lles er mwyn cefnogi ymarferwyr a sbarduno cynnydd. Gan weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr ac ymchwilwyr blaenllaw, mae adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn yr haf. Mae'r grŵp yn gobeithio y gellir defnyddio ei ganfyddiadau i geisio dylanwadu ar syniadau ac ymarfer gwleidyddion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Dyma drosolwg byr o amcanion y Grŵp Seneddol Hollbleidiol: -

Archwilio a thrafod polisïau perthnasol y llywodraeth a'r gwrthbleidiau; galluogi Gweinidogion ac eraill mewn rolau gwneud-penderfyniadau o bwys i wneud cyflwyniadau a chael eu holi; darparu fforwm ar gyfer trafodaeth gyson rhwng gwleidyddion ac ymarferwyr; symbylu gweithredu seneddol; gweithio gyda Grwpiau Seneddol Hollbleidiol eraill ar feysydd diddordeb a rennir ac annog gwerthuso gwaith ym maes y celfyddydau ac iechyd a lledaenu tystiolaeth, a hybu rhannu gwybodaeth am arferion da a hwyluso mynediad i'r cyhoedd yn gyffredinol at ddarpariaeth celfyddydau ac iechyd.

Gorffennodd yr Arglwydd Howarth ei gyfraniad drwy fynegi ei obaith y gall y ddau grŵp rannu profiadau a chydweithio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

Wedyn cafwyd sesiwn holi ac ateb cyn gwahodd Phil George i siarad.

Cychwynnodd Phil drwy ddiolch i Eluned am ei chyfraniadau yn y siambr ar y mater, ac am ei hymdrechion yn gwthio'r mater yn y cyfryngau. Canolbwyntiai ei adroddiad ar ddau beth: y cyntaf oedd cysylltiadau â gweinidogion y Llywodraeth ac, yn ail, yr angen i lunio un ffordd gyson o ymdrin â'r rhwydweithiau ar draws holl adrannau'r celfyddydau.

Croesawai Phil yr ymateb cefnogol a gafwyd gan Ysgrifennydd Iechyd y Cabinet, Vaughan Gething, i gyflwyniad y grŵp yn manylu ar ei amcanion. Roedd hefyd yn canmol brwdfrydedd Ken Skates ac adran ddiwylliant Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf natur gadarnhaol y llythyr, nododd nad oedd yn mynd cyn belled â mabwysiadu'r llwybr a ffefrir, sef ymrwymo i ddarn o waith dadansoddi wedi'i gyd-gomisiynu yn edrych ar weithio mewn ffordd sy'n addas i'r diben yng Nghymru. Nododd Phil mai darn o ymchwil sylfaenol a gyd-gomisiynwyd oedd y prosiect 'Dysgu Creadigol a'r Celfyddydau' a bod cyllid yn rhan fawr o'i lwyddiant.

Ailadroddodd nad oedd gofyn am symiau afresymol o arian, dim ond darn o waith wedi'i ariannu'n rhesymol. Yr uchelgais yw cael darn o ymchwil, dan arweiniad Cyngor y Celfyddydau, wedi'i ariannu gan adrannau Iechyd a Diwylliant Llywodraeth Cymru. Dywedodd Phil fod Cyngor y Celfyddydau yn bwrw ymlaen â chyfarfodydd i geisio creu cyd ddealltwriaeth, ond dywedodd hefyd ei fod yn ymwybodol o'r heriau niferus a wynebir gan system dan bwysau. Serch hynny, mae'n obeithiol y gwneir cynnydd ac y gellir comisiynu darn pwrpasol o ymchwil maes o law.

Gan symud ymlaen at ei bwynt nesaf, soniodd Phil am y sgyrsiau diddorol sydd wedi digwydd rhwng Cyngor y Celfyddydau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daeth yn amlwg y byddai'n bwerus, o safbwynt ymarfer, ffurfio

cynghrair rhwng y ddau gorff. Drwy gydweithredu gellid ymdrin mewn ffordd fwy canolog ag iechyd a lles drwy'r celfyddydau, drwy weithredu ar y cyd a deialog. O wneud hynny, un o'r canlyniadau posibl a allai fod yn arbennig o bwerus fyddai sefydlu un rhwydwaith celfyddydau ac iechyd drwy Gymru. Byddai esblygiad rhwydweithiau o'r fath a ffurfio un strwythur yn bwerus o ran dylanwadu ar y drafodaeth gyhoeddus a byddai'n osgoi gwthio'r mater i'r cyrion.

Gwahoddodd Phil sylwadau'r grŵp ar ei gynnig, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol - cytunwyd yn unfrydol y byddai gweithredu ar y cyd yn fanteisiol. Dywedwyd bod rhwydweithiau presennol, megis yr hyn a gychwynnwyd gan Angela Rogers, yn ennyn diddordeb cynyddol. Roedd y syniad o greu cymuned buddiant o fil o fywydau wedi'i gynnig mewn cyfarfod yng Nghaerdydd a derbyniwyd y syniad yn frwdfrydig. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Abertawe i gwblhau'r cynlluniau ynglŷn â'r cynnig.

Diolchodd Eluned i Phil am ei arweinyddiaeth wych yn y maes hwn a gwahoddodd Annie Dayton o Theatr Clwyd i gyflwyno trosolwg o'r gwaith a wneir gan y prosiect Celf o'r Gadair Freichiau.
Cynllun ar y cyd yw hwn rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (GIG Cymru) a Theatr Clwyd, dan arweiniad tîm Ffynnon Greadigol y Bwrdd Iechyd. Eglurodd Annie fod y prosiect yn anelu at ddarparu profiad cadarnhaol, creadigol dan arweiniad y cyfranogwyr, gyda gweithdai a pherfformiadau yn cael eu harwain gan ymarferwyr celfyddydau proffesiynol, o fewn cyd-destun theatr.

Diolchodd Eluned i Annie am ei chyfraniad a chynigiodd i'r aelodau eraill y gallent hwy arddangos eu gwaith yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cylchredwyd y manylion mynediad ar gyfer y fforwm ar-lein, a sefydlwyd yn dilyn y cyfarfod blaenorol, a gofynnwyd i'r aelodau helpu i gynyddu ei gynnwys. Cytunwyd y byddai trafodaethau rhyngweithiol y tu hwnt i'r cyfarfodydd yn ddefnyddiol.

Gofynnodd swyddfa Eluned am gymorth gyda'r dyletswyddau ysgrifenyddol a gofynnwyd i aelodau oedd â'r capasiti a diddordeb yn y rôl i gysylltu. Cytunwyd hefyd y câi swyddogion eu hethol yn y cyfarfod nesaf, yn cynnwys penodi'r is-gadeirydd. Bydd nifer o rolau cymorth eraill ar gael.

Bydd gwahoddiad yn cael ei roi i Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, i fynychu'r cyfarfod nesaf, a bennwyd dros dro ar gyfer yr 28ain o Fehefin. Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r dyddiad hwn newid gan fod cymaint o alw ar amser Gweinidogion. Gan edrych ymlaen, cafodd yr 28ain Medi ei nodi hefyd fel dyddiad dros dro ar gyfer cyfarfod arall.